

tai pawb

promoting equality in housing
hybu cydraddoldeb ym maes tai

# PECYN RECRIWTIO

## Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus

**LLleoliad:** Gweithio gartref (gan fynd i'r swyddfa yng Nghaerdydd a theithio o bryd i'w gilydd

**Dyddiad cau: 28 Ebrill (canol dydd)**
**Cam 1 Cyfweliad (canolfan asesu grŵp): 22 Mai**
**Cam 2 Cyfweliad (unigol): 3 Mehefin**
**Ddyddiad dechrau swyddc 9 Tachwedd 2025**

Byddwn yn cynnal Gweminar Agored i unrhyw un a hoffai gwrdd â rhai o'r tîm, clywed mwy am y rôl, a gofyn unrhyw gwestiynau.

# Croeso



Diolch am eich diddordeb yn y swydd Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus.

Tai Pawb yw'r sefydliad mwyaf blaenllaw yng Nghymru o ran hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y sector tai. Rydym yn dychmygu Cymru lle mae gan bawb yr hawl i gael cartref da. Rydym yn gweithio gyda llunwyr polisïau ac yn dylanwadu arnynt, ac rydym yn cefnogi ein haelodau a'r sector tai yn ehangach i'w helpu i wreiddio cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ym mhopeth maen nhw'n ei wneud, ac rydym hefyd yn dylanwadu ar lunwyr polisïau.

Mae hwn yn gyfnod cyffrous i ymuno â Tai Pawb wrth i ni ganolbwyntio ar ddatblygu ein maniffesto ar gyfer etholiadau'r Senedd yn ogystal â strategaeth 5 mlynedd newydd ar gyfer y sefydliad.

Yn y rôl hon, rwy'n chwilio am rywun sydd ag angerdd gwirioneddol dros gydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol ynghyd â phrofiad o ddylanwadu ar lunwyr polisi cenedlaethol a gwybodaeth gynhwysfawr am brosesau gwleidyddol; rhywun sy'n ddylanwadwr cydweithredol a llawn perswâd sy'n awyddus i lunio sut rydym yn ymgysylltu â phrif lunwyr polisi, sylwebwyr a rhanddeiliaid Cymru.

Yma yn Tai Pawb, mae gennym gynlluniau uchelgeisiol ar gyfer y dyfodol ac mae angen pobl wych arnom i'n helpu i'w cyflawni. Fel sefydliad bach, deinamig, mae gweithio gyda ni yn golygu:

- Ennill profiad amrywiol ac ehangu eich rhwydweithiau
- Gweld effaith uniongyrchol eich gwaith
- Dylanwadu ar ein cyfeiriad drwy wneud penderfyniadau'n gyflym
- Elwa o'r Wythnos 4 Diwrnod arloesol rydym yn ei gynnig — 100% o'r gwaith, mewn 80% o'r amser, am 100% o'r cyflog (bydd penderfyniad ar fabwysiadu'r model hwn yn barhaol yn cael ei wneud gan yr Ymddiriedolwyr ym mis Ebrill).

Mae hwn yn gyfle gwych i ddefnyddio eich sgiliau, datblygu eich potensial, a bod yn rhan o dîm sy'n gwneud gwahaniaeth go iawn.

Os nad ydych yn siŵr a ydych am wneud cais ai peidio neu os oes unrhyw gwestiynau gennych am y broses gyfweld, dewch i'n gweminar agored i glywed mwy am y rôl. Os nad ydych chi'n gallu dod i'r weminar, mae croeso i chi gysylltu'n uniongyrchol drwy alicja@taipawb.org

Edrychaf ymlaen at gael eich cais.

Alicja Zalesinska
Prif Swyddog Gweithredol


# Amdanom ni




## Pwy ydyn ni?

Tai Pawb yw'r prif sefydliad cenedlaethol sy'n hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y sector tai. Mae gennyn ni weledigaeth o Gymru lle mae gan bawb yr hawl i gael cartref da. Rydym ni'n cefnogi ac yn gweithio gyda'n haelodau i'w helpu i roi syniadau ar waith, rydym ni'n dylanwadu ar lunwyr polisïau i sicrhau bob polisïau tai yn deg, ac rydym ni'n arweinwyr syniadau ar faterion cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol ar gyfer y sector tai a'r tu hwnt.

## Ein Tîm



# Pam gweithio yn Tai Pawb?

## Budd-daliadau

### CYFLOG

**Rydym ni'n cynnig cyflog cystadleuol. Mae hyn yn cael ei feincnodi'n rheolaidd yn erbyn safonau'r diwydiant.**

### PENSIWN

**Cynllun pensiwn â chyfraniadau wedi'u diffinio. Bydd Tai Pawb yn cyfrannu 5% at eich pensiwn.**

### WYTHNOS WAITH 4 DIWRNOD

**Rhwng mis Ebrill 2024 a mis Mawrth 2025, bydd Tai Pawb yn treialu wythnos waith 4 diwrnod. Mae'r Wythnos Waith 4 Diwrnod yn seiliedig ar egwyddor o gyflawni 100% o'r gwaith, mewn 80% o'r amser, am 100% o'r cyflog (nid yw'n golygu oriau cywasgedig na thâl pro rata). read more here**

### GWEITHIO HYBLYG

**Gartref fydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio'n bennaf. Mae gennyn ni swyddfa yng Nghaerdydd ac mae modd ei defnyddio drwy gydol yr wythnos yn unol ag anghenion aelodau staff. Rydyn ni'n disgwyl y byddwch chi'n cwrdd â'ch rheolwr llinell yn rheolaidd i drafod gwaith prosiect.**

### GWYLIAU

**Mae gan staff hawl i gael 23 diwrnod o wyliau blynyddol ac 8 Gŵyl Banc. Rydym ni hefyd yn cynnig tâl da ar gyfer absenoldeb mamolaeth, absenoldeb tadolaeth, absenoldeb mabwysiadu ac absenoldeb rhiant a rennir.**

### LLUNIO'R SEFYDLIAD A'N GWAITH

**Bydd ymuno â Tai Pawb yn rhoi cyfle i chi helpu i lunio ein gwaith yn ogystal â'n hymatebion i gyfleoedd a heriau yn y sector tai a chydraddoldeb. Rydym ni'n sefydliad gwirioneddol golegol a chydweithredol sy'n gwerthfawrogi mewnbwn a phrofiad staff.**

# Disgrifiad Swydd

**PSwydd:** Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus

**Yn atebol i:** Prif Swyddog Gweithredol

**Is-weithwyr Uniongyrchol:** Rheolwr Polisi, Rheolwr Cyfathrebu a Marchnata, Rheolwr Gwrth-hiliaeth

**Cyflog:** £43,393

**Oriau:** 35 awr yr wythnos yn ôl contract (dull hyblyg o weithio oriau). Ar hyn o bryd rydym yn treialu wythnos waith 4 diwrnod (100% o'r cyflog am 80% o'r oriau a 100% o'r canlyniadau). Nid ydym yn gweithio ar ddydd Gwener.

**Contract:** Parhaol

**Lleoliad:** Gartref yn bennaf, gyda mynediad at y swyddfa a sesiynau o leiaf unwaith y mis yn y swyddfa (addasiadau rhesymol lle bo angen)

**Cysylltiadau allweddol:** Cydweithwyr mewnol, Llywodraeth Cymru, gwleidyddion, y trydydd sector, cymdeithasau tai, awdurdodau lleol

## Pwrpas y swydd:

Darparu arweinyddiaeth strategol a gweithredol ar waith polisi, dylanwadu, digwyddiadau a chyfathrebu Tai Pawb, gan gynnwys arwain ar ofynion maniffesto Tai Pawb a helpu i lunio ein strategaeth. Bydd deiliad y swydd yn adeiladu ar enw da Tai Pawb fel elusen fwyaf blaenllaw Cymru o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant drwy weithio gyda llunwyr polisi a gwella proffil cyhoeddus Tai Pawb drwy gysylltiadau cyhoeddus ac arwain agweddau ar yr un pryd â chydlynu digwyddiadau dylanwadol sy'n cysylltu polisi ac ymarfer.

Bydd deiliad y swydd yn rheolwr llinell uniongyrchol ar y Rheolwr Polisi, y Rheolwr Cyfathrebu a Marchnata, a'r Rheolwr Gwrth-hiliaeth.

Bydd angen i chi gofleidio'r syniad nad yw swydd o'r math hwn mewn sefydliad bach byth yn gyfyngedig iawn i oruchwyliaeth strategol.

Mae'r swydd hon yn rhan o'r tîm arwain yn Tai Pawb – ochr yn ochr â'r Prif Weithredwr a'r Pennaeth Aelodaeth a Phartneriaethau.

# Disgrifiad Swydd

## Y Prif Ddyletswyddau

- Arwain ar waith polisi Tai Pawb, sy'n cynnwys ymatebion i ymgynghoriadau, ymgyrchoedd, datganiadau safbwynt ac ymgysylltu â rhanddeiliaid ochr yn ochr â'r Rheolwr Polisi
- Sbarduno ymgysylltiad Tai Pawb â chynrychiolwyr etholedig a phenderfynwyr allweddol eraill
- Arwain y gwaith o ddatblygu a gweithredu maniffesto Tai Pawb ar gyfer etholiad 2026
- Cefnogi'r Prif Swyddog Gweithredol i ddatblygu presenoldeb Tai Pawb yn y cyfryngau
- Sbarduno gweithgareddau Tai Pawb o ran cysylltiadau cyhoeddus ac arwain agweddau er mwyn cynnal a chynyddu ein proffil, ein dylanwad a'n heffaith
- Arwain a goruchwylio portffolio cyffrous o ddigwyddiadau drwy gydol y flwyddyn gan weithio gyda chydweithwyr eraill, mae hyn yn cynnwys y gynhadledd flynyddol
- Sbarduno strategaeth a gweithgareddau cyfathrebu/marchnata Tai Pawb sydd wedi'u hanelu at aelodau a rhanddeiliaid, ochr yn ochr â'r Rheolwr Cyfathrebu a Marchnata
- Rheoli a chefnogi dyletswyddau Rheolwr Polisi, Rheolwr Cyfathrebu a Marchnata a Rheolwr Gwrth-Hiliaeth Tai Pawb
- Cyfrannu at ddatblygu strategaeth bum mlynedd newydd Tai Pawb, gan helpu i ymgysylltu â staff, ymddiriedolwyr, aelodau a rhanddeiliaid i adlewyrchu dyhead ac uchelgais ar gyfer cymunedau amrywiol ledled Cymru
- Cyfrannu at ddatblygiad strategol a chyfeiriad y sefydliad a darparu arweinyddiaeth ar draws Tai Pawb fel aelod o'r uwch dîm arwain
- Cefnogi llywodraethiant sefydliadol drwy gymryd rhan mewn cyfarfodydd bwrdd ac adrodd iddynt
- Dirprwyo ar ran y Prif Swyddog Gweithredol pan fo angen
- Gwneud unrhyw dasgau eraill a allai fod yn ofynnol o bryd i'w gilydd fel aelod o dîm bach sydd â chylch gwaith cenedlaethol.

# MANYLEB Y PERSON

## Hanfodol

**Gwybodaeth**

- Wedi cymhwyso i lefel gradd neu gymhwyster cyfatebol
- Dealltwriaeth gynhwysfawr o'r trydydd sector a'r sector tai
- Gwybodaeth dda o heriau sy'n ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn y maes tai
- Gwybodaeth gynhwysfawr am amgylcheddau Llywodraeth Cymru a'r Senedd
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o rôl materion cyhoeddus a chyfathrebu

**Profiad**

- Cyfrannu at gyfeiriad strategol sefydliad, gan gynnwys prosesau cynllunio a gwneud penderfyniadau
- Hanes blaenorol o reoli, arwain ac ysgogi staff
- Y gallu i ddangos lefel dda o lwyddiant o ran dylanwadu ar bolisïau cyhoeddus a'u datblygu, gan gynnwys dylanwadu ar Aelodau o'r Senedd, llunwyr polisïau a llunwyr barn drwy ddefnyddio tystiolaeth, gwybodaeth a data a gasglwyd gan amrywiaeth eang o randdeiliaid
- Y gallu i ddangos dealltwriaeth fanwl o'r ffordd y mae polisi cyhoeddus a deddfwriaeth newydd yn cael eu llunio a'u datblygu
- Profiad o gysylltiadau cyhoeddus, delio â'r cyfryngau a chyfathrebu
- Profiad cryf o siarad yn gyhoeddus a chydlynu neu ddarparu digwyddiadau

**Sgiliau a chymwyseddau**

- Ymrwymiad brwd i gydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a gwrth-hiliaeth
- Sgiliau rhyngbersonol a rhwydweithio cryf gyda'r gallu i ddatblygu cysylltiadau a dylanwadu ar lefel uwch
- Sgiliau cyflwyno a chyfathrebu rhagorol ar lafar ac ar bapur
- Sgiliau TG lefel uwch, gan gynnwys Excel, Word a PowerPoint neu feddalwedd gyfatebol

## Dymunol

- Profiad uniongyrchol o anghydraddoldeb
- Gallu cyfathrebu'n Gymraeg
- Profiad o weithio gyda bwrdd

# Y CAMAU NESAF

Il wneud cais am y swydd hon, anfonwch ffurflen gais a'r ffurflen monitro cydraddoldeb at andrea@taipawb.org erbyn hanner dydd ar 6 Mai[

Mae Tai Pawb wedi ymrwymo i greu amgylchedd amrywiol a chynhwysol. Rydym yn annog ceisiadau gan unigolion o bob cefndir. Rydym yn arbennig o eiddgar i gael ceisiadau gan ymgeiswyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ac ymgeiswyr anabl.

I gefnogi cyfle cyfartal, bydd pob ymgeisydd o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Amrywiol sy'n bodloni'r meini prawf hanfodol, yn ogystal â phob ymgeisydd anabl, yn sicr o gael cyfweliad yn ystod Cam 1 (asesiad grŵp). Mae gan ymgeiswyr anabl sy'n bodloni'r meini prawf hanfodol y dewis i symud ymlaen yn syth i Gam 2 (cyfweliad unigol).

Os oes angen unrhyw addasiadau rhesymol arnoch, nodwch hyn yn yr adran a ddarperir ar y ffurflen gais. Byddwn yn cysylltu â chi i drafod hyn os cewch eich dewis am gyfweliad.

I archebu lle ar ein Gweminar Agored i gwrdd â rhai o'r tîm, clywed mwy am y rôl, a gofyn unrhyw gwestiynau, gallwch ddod o hyd i'r cyfarwyddiadau archebu yma: **Open Webinar**




tai pawb